**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD-04-03(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9.15am tan 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

*Hefyd yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Gareth Jones | Is-adran Rheoli'r PAC |
| Nick Lilley | Is-adran Rheoli'r PAC |
| Tony Joss | Is-adran Rheoli'r PAC |
| Jim Norrie | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Rosemary Thomas | Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Huw Davies | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Huw Jones | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Huw Davies | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Jane Downes | Y Gwasanaeth Hylendid Cig |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion**

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ron Davies.

**Eitem 2: Cymorthdaliadau'r PAC**

2.1 Bydd cofnod air am air o'r rhan hwn o'r cyfarfod ar gael cyn bo hir.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Yn ogystal â'i adroddiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog y byddai archif semen yr ysfa yn cael ei sefydlu yn ddibynnol ar gymeradwyo cymhorthion gwladol Ewropeaidd. Hefyd, dywedodd ei fod wedi mynychu cyfarfod o Gadeiryddion Gweithgorau'r Fforwm Coetiroedd i glywed cyngor am ailstocio coetiroedd y Cynulliad. Byddai'n gwneud datganiad ar bolisi coedwigaeth a rhagdybiaeth am ailstocio coetiroedd y Cynulliad yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Fforwm Coetiroedd ddiwedd mis Mawrth.

***Cwota llaeth***

3.2 Mynegwyd pryder am ddyfarniad y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd, sef na fyddai deiliaid cwota nad ydynt yn cynhyrchu llaeth bellach yn cael cadw'u cwota na'i brydlesu am gyfnod amhenodol. Byddai deiliaid cwota llaeth nad oeddent wedi cynhyrchu yn erbyn eu cwota yn 2003/4 yn cael, tan 31 Mawrth 2004, naill ai gwerthu'u cwota neu ailddechrau cynhyrchu. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar ffermwyr a oedd yn dibynnu ar brydlesu cwota fel ffynhonnell incwm neu a fyddai'n dioddef o golled mewn cyfalaf o'i werthu. Byddai cwota sydd heb ei ddefnyddio neu sydd heb ei werthu yn cael ei gymryd oddi ar bobl a'i roi mewn cronfa genedlaethol, a byddai modd ei ailddosbarthu wedyn i grwpiau penodol, megis ffermwyr newydd.

3.3 Byddai effaith y cynigion ar ddeiliaid cwota yng Nghymru, a'r graddau y byddai daliadau cwota yn symud rhwng Cymru a Lloegr, yn dibynnu ar benderfyniadau masnachol sy'n cael eu gwneud gan gynhyrchwyr. Ni allai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu ardal derfyn ar gyfer cwota llaeth yng Nghymru gan fod cwotâu yn gweithredu ar sail y DU. Beth bynnag, roedd yn rhy gynnar i'w ystyried o ganlyniad i'r diwygiadau sydd ar y gweill, gan gynnwys cynigion ar gyfer y Cynllun Premiwm Llaeth. Cynnig yn unig oedd y dyddiad i gyflwyno'r premiwm llaeth newydd, sef 31 Mawrth 2004, am fod trafodaethau yn parhau. Nid oedd sicrwydd eto ar unrhyw ddarpariaethau.

3.4 Byddai angen cadw digon o gwota o fewn Cymru a diogelu anghenion ffermwyr ifanc sy'n dymuno cael mynediad i'r cwota llaeth er mwyn sicrhau cynaliadwyedd o fewn y sector. Am nad oedd ardal derfyn yn cael ei hystyried yn opsiwn ar hyn o bryd, byddai gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i ddylanwadu ar hyn yn deillio o'r rheolau a luniwyd ar gyfer dosrannu cwota o'r gronfa genedlaethol.

***Symud Da Byw***

3.5 Ar ôl cyhoeddi'r rheolau interim ar gyfer symud da byw, byddai ymgynghoriad ffurfiol ar y drefn newydd ar gyfer symud da byw yn dechrau'n fuan. Byddai angen i'r mesurau yng Nghymru adlewyrchu'r rhai sydd wedi'u rhagnodi yn Lloegr gan y byddai'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei gwneud ar y cyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a DEFRA.

3.6 Gofynnodd y Gweinidog i Peter Rogers ddarparu manylion y tu allan i'r pwyllgor, fel y gallai ymateb i gwestiwn sy'n ymwneud ag effaith cyfleusterau ynysu ar fuchod sugno.

***Incwm Ffermydd***

3.7 Rhoddodd y Gweinidog groeso gofalus i ffigurau sy'n nodi bod rhai gwelliannau i incwm ffermydd, ond cytunodd fod hyn yn dod o sylfaen isel a bod y sector yn parhau i fod yn fregus. Byddai adroddiad yr astudiaeth o Gymunedau â Chydbwysedd Oed, a oedd yn archwilio allfudiad pobl ifanc o gymunedau gwledig Cymru, ar gael maes o law a byddai'n ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer datblygiadau i helpu ffermwyr ifanc yn y dyfodol.

***Caffael Cyhoeddus***

3.8 Yn dilyn Cynhadledd Cyflenwi a Gwerthu Bwyd yn y Sector Cyhoeddus, byddai dau brosiect braenaru yn cael eu rhoi ar waith. Ar hyn o bryd cyfanswm gwariant y prif gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar fwyd yw £60 miliwn. Byddai gwybodaeth am y gyfran o gynnyrch o Gymru sy'n cael ei brynu gan y sector cyhoeddus ar gael cyn bo hir, a byddai'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer cynhyrchwyr o Gymru.

***Organebau â'u genynnau wedi'u haddasu'n eneteg (GMOs)***

3.9 Cytunodd y Gweinidog i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau parhaus gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyd-fodolaeth cnydau â'u genynnau wedi'u haddasu'n eneteg a chnydau nad yw eu genynnau wedi'u haddasu ac, yn benodol, y mater o atebolrwydd petai croeshalogi'n digwydd.

3.10 Hefyd, cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar ei ymateb i'r farn gyfreithiol a gafwyd gan Cyfeillion y Ddaear ynghylch pwer y Cynulliad Cenedlaethol i rwystro Chardon LL rhag cael ei restru.

***Deddfwriaeth***

3.11 Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor am y rheswm dros dynnu yn ôl y Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru), a oedd wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod ar 12 Chwefror.

3.12 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion cwmpas polisi neilltuol i Gymru mewn cynigion i roi rheoliad 999/2001 yr Undeb Ewropeaidd ar Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy ar waith.

*Materion Eraill*

3.13 Mynegwyd pryder am absenoldeb cyfleusterau difa moch yng Ngogledd Cymru. Cadarnhaodd y Gweinidog fod chwe chwmni yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd sy'n gallu difa moch. Mae mater capasiti difa yn dod o fewn cylch gorchwyl Hybu Cig Cymru i fwrw ymlaen ag ef yn y dyfodol.

**Pwyntiau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar drafodaethau parhaus gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyd-fodolaeth cnydau â'u genynnau wedi'u haddasu'n eneteg a chnydau nad yw eu genynnau wedi'u haddasu, yn enwedig y mater o atebolrwydd petai croeshalogi'n digwydd - **Gweinidog, yr Is-adran Cefn Gwlad.**

Hefyd cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar ei ymateb i'r farn gyfreithiol a gafwyd gan Cyfeillion y Ddaear ynghylch pwer y Cynulliad Cenedlaethol i rwystro Chardon LL rhag cael ei restru - **Gweinidog, yr Is-adran Cefn Gwlad.**

Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor am y rhesymau dros dynnu yn ôl y Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru), a oedd wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod ar 12 Chwefror - **Gweinidog, yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.**

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion cwmpas polisi neilltuol i Gymru mewn cynigion i roi rheoliad 999/2001 yr Undeb Ewropeaidd ar Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy ar waith - **Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.**

**Eitem 4: Adolygiad Canol Tymor o'r PAC**

Byddai papur yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ddiwygiadau'r PAC yn cael ei amserlennu ar gyfer ei gyfarfod ar 2 Ebrill. Byddai'n cynnwys manylion canlyniad Cyngor y Gweinidogion Amaethyddiaeth ym mis Mawrth.

**Eitem 5: Ymatebion i adroddiad y Senedd Ewropeaidd ar glwy'r traed a'r genau**

Bu'r pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Senedd Ewropeaidd ar glwy'r traed a'r genau a Chyfarwyddeb ddrafft gysylltiedig yr UE.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- effaith y cynigion ar frechu ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i unrhyw argyfwng clwy'r traed a'r genau yn y dyfodol, gan gynnwys goblygiadau ymarferol defnyddio'r brechiad brys, sut y byddai polisi brechu-i-fyw a'r gofyniad i dynnu esgyrn a gadael i gig aeddfedu cyn ei werthu yn

cael ei weithredu, ac i ba raddau y mae Cynllun Wrth Gefn Clwy'r Traed a'r Genau Cymru yn mynd i'r afael â'r mater o frechu; a'r

- angen i ystyried yr economi cefn gwlad ehangach wrth ddelio ag unrhyw argyfwng o'r clwy yn y dyfodol.

Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- bod y Gyfarwyddeb ddrafft yn gofyn i frechu fod yn ystyriaeth sylfaenol wrth ymateb i unrhyw argyfwng o'r clwy yn y dyfodol. Er hynny, roedd ffactorau logistaidd, gwyddonol ac economaidd, sy'n gysylltiedig â brechu, a fyddai'n cyfyngu ar effeithiolrwydd y polisi brechu-i-fyw yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, roedd cynllunio wrth gefn yn DEFRA a'r Cynulliad yn seiliedig ar bolisi o gael gwared ar y clwy trwy ddifa anifeiliaid heintus, neu anifeiliaid y rhagdybir bod y clwy arnynt. Ni fyddai'r holl anifeiliaid ar ffermydd cyfagos yn cael eu difa yn awtomatig, fel y digwyddodd yn 2001. Byddai brechu yn cael ei ystyried, yn ogystal â phrofion a goruchwyliaeth filfeddygol;
- roedd wedi pwyso ar DEFRA i geisio sicrhau y dylai Office Internationale des Epizooties sefydlu gweithdrefnau manwl ar gyfer dychwelyd i statws rhydd rhag y clwy ar ôl argyfwng;
- gallai caniatáu i gig wedi'i frechu gael ei farchnata heb dynnu'r esgyrn arwain at bwysau ar yr UE i dderbyn mewnforion o gig ar yr asgwrn o wledydd sydd â chlwy'r traed a'r genau, nad oeddynt wedi tynnu'r asgwrn nac aeddfedu;
- roedd y cynllun wrth gefn yn ei gwneud yn amlwg bellach na ddylid cau cefn gwlad petai argyfwng arall yn y dyfodol.

**Eitem 6: Is-ddeddfwriaeth**

*Gorchymyn Diogelu Anifeiliaid (Anaesthetig) (Diwygio) (Cymru) 2003*

*Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003*

*Cod Lles Moch*

Bu'r Pwyllgor yn ystyried tair eitem o is-ddeddfwriaeth ac fe wnaed yr argymhellion canlynol:

*Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003*

Paragraff 17 o Atodlen 6 - dylid nodi lefelau tymheredd priodol ar gyfer cadw moch;

Paragraff 29(1) o Atodlen 6 - dylai arwynebedd dirwystr lleiaf y llawr ar gyfer baedd llawndwf (6m2) fod yn gyson â'r hyn a nodir ym mharagraff 108 o'r Cod Lles (7.5m2);

Paragraff 47 o Atodlen 6 - dylai'r gair 'pigs' gael ei newid i 'sows' i adlewyrchu gofynion Cyfarwyddeb yr UE;

Paragraff 47 o Atodlen 6 - dylai'r geiriau 'paragraph 48' gael eu newid i 'paragraph 46'.

*Cod Lles Moch*

Paragraff 42 - dylid cynnwys canllawiau ar ddulliau addas o ddifa anifail yn dosturiol;

Paragraffau 80 ac 81 - dylid gwneud yr angen i ddefnyddio deunydd addas ar gyfer cyfoethogi'r amgylchedd yn hytrach na phethau megis peli, cadwyni ac ati yn fwy amlwg.

Paragraff 107 - dylai gyfeirio at yr anfodlonrwydd sy'n caei ei beri i'r anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn tymheredd eithafol.

Cytunwyd y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu hystyried ymhellach.

**Eitem 7: Ymchwiliad y Pwyllgor i gynlluniau amaeth-amgylcheddol**

Gofynnodd yr aelodau i gyfeiriad gael ei wneud at y dystiolaeth a dderbyniwyd am rôl y cynlluniau rhan o fferm ac i'r egwyddor o ychwanegedd wrth ddarganfod lefel cyllid yr UE sydd ar gael. Cytunodd y Pwyllgor i ddileu'r frawddeg olaf ym mharagraff 29 ar amcanion y cynllun.

Byddai drafft diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau ac yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 15 Mawrth.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Yn ddibynnol ar newid bach, cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror.